Ysgol Niwbwrch
Niwbwrch,
Ynys Môn,
LL61 6TE
Ffôn – 01248 440 651
ebost/email –
pennaeth.niwbwrch@ynysmon.gov.uk

Ysgol Dwyran
Dwyran, Llanfairpwll,
Ynys Môn,
LL61 6AQ
Ffôn – 01248 440 447
ebost/email –
pennaeth.dwyran@ynysmon.gov.uk

Ysgol Llangaffo
Llangaffo, Gaerwen,
Ynys Môn,
LL60 6LT
Ffôn – 01248 440 666
ebost/email –
pennaeth.llangaffo@ynysmon.gov.uk

Datganiad Grant Amddifadedd Ysgol Niwbwrch

Diben y Grant Amddifadedd Disgyblion yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (hPYD). Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at welliannau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Fel ysgol rydym am ddysgu o'r arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt trwy:

1. gynllunio ymyriadau sy'n canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad plant o gefndiroedd difreintiedig, ac sy'n nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan yr ymyriad, gan fonitro cynnydd disgyblion yn gyson a gwerthuso effeithiolrwydd yr ymyriad.
2. integreiddio cynlluniau ar gyfer defnyddio'r GAD i'n Cynllun Datblygu Ysgol, gan selio arferion ar dystiolaeth dda a'u cynnwys fel rhan o strategaeth ysgol gyfan.
3. gydbwyso ymyriadau ysgol gyfan ac ymyriadau wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod pob dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael budd fel unigolyn a bod yr ysgol gyfan yn meithrin ei gallu i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial llawn.

Yn 2016-17 rhoddwyd i Ysgol Niwbwrch ddyraniad Grant Amddifadedd disgyblion o £7,500 (yn cynnwys arian grant GAD Blynyddoedd Cynnar.)

Yn Ysgol Niwbwrch y mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Ynys Môn a GwE, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:
a) Brynu llyfrau Cymraeg sy'n cynnwys llyfrau stori a llyfrau dysgu darllen ar gyfer y dosbarth Cyfnod Sylfaen.
b) Brynu llyfrau rhifedd Cymraeg ar gyfer yr Ysgol gyfan.
c) Brynu adnoddau i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd drwy chwarae yn y Cyfnod Sylfaen.
ch) Gyflogi athrawes ran amser a chymorthyddion rhan amser i weithio gyda grwpiau penodol o ddisgyblion i dargedu sgiliau llythrennedd a rhifedd.

Nid yw'n briodol i'r ysgol gyhoeddi ei chynllun manwl oherwydd y perygl y gellid adnabod unigolion.